

# Pecyn Ymgeisio:
# Partner Gwella Ysgolion (Cymraeg) (GCA)

Dyddiad : Ebril 2023

# Annwyl Ymgeisydd

Mae cyfle cyffrous wedi codi ar gyfer Bartner Gwella Ysgolion yng Ngwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) De Ddwyrain Cymru.

Mae'r pecyn hwn yn cynnig gwybodaeth i chi am swyddogaeth a chyfrifoldebau'r Bartner Gwella Ysgolion rhan amser a manylion y broses ymgeisio.

Bwriad y wybodaeth a ddarperir yw eich cynorthwyo i gyfranogi'n llawn yn y broses dethol a phenodi, ac i'ch cynorthwyo i ddarparu'r wybodaeth y mae arnom ni ei hangen i ddeall sut rydych chi'n ateb gofynion y rôl. Rydym ni'n gobeithio y gwnaiff darllen y wybodaeth eich annog i ymgeisio.

Os hoffech drafod unrhyw agwedd o'r swydd, cysylltwch â Jonathan Keohane ar 07904 644902 neu gan ebost ar Jonathan.keohane@sewaleseas.org.uk

Yn gywir

Gwasanaeth Cyflawni Addysg

# Ynglŷn â Gwasanaeth Cyflawni Addysg De Ddwyrain Cymru

Y GCA yw'r gwasanaeth gwella ysgolion ar gyfer y pum awdurdod lleol (ALl) yn Ne Ddwyrain Cymru (Caerffili, Blaenau Gwent, Casnewydd, Torfaen a Sir Fynwy). Mae'r GCA yn gwmni dielw cyfyngedig trwy warant. Mae'n eiddo i'r pum cyngor sydd oll yn enwebu Cyfarwyddwr i fod yn aelod o Fwrdd y Cwmni.

Mae model canolog o ddarparu gwasanaethau wedi cael ei fabwysiadu ledled rhanbarth De Ddwyrain Cymru, ac mae hyn wedi galluogi cyflawni arbedion effeithlonrwydd a sicrhau arbedion maint, yn enwedig o safbwynt osgoi dyblygu swyddogaethau a'r gallu i sicrhau ystod eang o arbenigeddau ym maes addysg yn y rhanbarth.
Caiff y doniau a'r arbenigeddau sy'n bodoli mewn ysgolion yn y rhanbarth a thu hwnt eu cymell a'u defnyddio'n effeithiol i gynorthwyo i gynnal darpariaeth dysgu proffesiynol a gweithgarwch gwella ysgolion.



# Ffeithiau a ffigurau allweddol y rhanbarth

- Roedd **73,324** o ddisgyblion oedran ysgol gorfodol yn y rhanbarth yn 2021. Mae hynny'n gyfystyr ag **19.3%** o'r holl ddisgyblion yng Nghymru.

- Ceir **21** o ysgolion cynradd Cymraeg, **3** ysgol uwchradd Gymraeg, **17** ysgol Gatholig ac **11** o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru yn y rhanbarth.

- Mae'r ganran o ddisgyblion oedran ysgol gorfodol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) yn **24.8%**. Mae lefel y cymhwysedd hwn yn ail uchaf o blith y pedwar consortiwm rhanbarthol wedi Consortiwm Canol De Cymru sydd gyda **25.1%** (CYBLD, 2021).

- Yn y rhanbarth, dywed **10%** o bobl sy'n 3 mlwydd oed ac yn hŷn y gallant siarad Cymraeg, o gymharu â chyfartaledd o **19%** ledled Cymru (Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol).

- Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n 5 mlwydd oed neu hŷn ac yn hanu o gefndir lleiafrif ethnig yn **11.8%.**

- Ar sail niferoedd a nodwyd mewn adroddiadau gan awdurdodau lleol (Mawrth 2021), mae **847** o blant yn y rhanbarth yn blant sy'n derbyn gofal (LAC) gan awdurdod lleol ac yn mynychu ysgol yn y rhanbarth. Mae **54** o blant sy'n derbyn gofal ychwanegol yn cael ei addysgu yn Lloegr. (Nid yw'r data hwn yn cael ei gasglu mwyach yn CYBLD).

## Mae ein gweledigaeth a'n gwerthoedd yn sail i bopeth a wnawn yn ein harferion o ddydd i ddydd a'n rhyngweithio â'n partneriaid allweddol, y gymuned addysgol ehangach, a'n staff.

## Ein Gweledigaeth

Cefnogi a galluogi ysgolion a lleoliadau addysg i ffynnu fel sefydliadau dysgu effeithiol, gan ddysgu oddi wrth ei gilydd a'r gymuned addysgol ehangach.

## Ein Gwerthoedd Craidd

**Uniondeb:** Gwneud yr hyn sy'n iawn a chyflawni'r hyn rydym yn ei addo drwy ddarparu amgylchedd cymorth a her uchel.

**Arloesedd:** Rydym yn addo diwylliant ac ymagwedd arloesol. Byddwn yn herio ac yn ceisio rhagoriaeth ym mhopeth a wnawn.

**Cydweithio:** Rydym yn gwerthfawrogi pawb ac yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni ein gweledigaeth.

# Ein cynnig i chi

Rydym yn sefydliad Buddsoddwyr mewn Pobl achrededig Aur. Rydym yn gwybod bod ein llwyddiant yn dibynnu'n health ar ymrwymiad, egni a brwdfrydedd y bobl sy'n gweithio yma. Dyna'r rheswm rydym yn ceisio darparu amodau gwaith  a pholisïau rhagorol i'n staff. Yn ogystal â chyflog teg a chystadleuol ac amrywiaeth o gyfleoedd dysgu proffesiynol, mae yna fanteision eraill efallai fod gan weithwyr y GCA hawl iddynt, megis gwyliau blynyddol hael, cynllun pensiwn llywodraeth leol a chyfleoedd am secondiad. Mae yna gyfleoedd i ddatblygu wrth weithio mewn amgylchedd deinameg, teg a hyblyg.

## Yr hyn a gynigwn:

**Cyflog cystadleuol:** Rydym yn cynnig cyflogau cystadleuol a thryloyw sy'n gwobrwyo gwaith caled ein staff. Rydym yn gyflogwr Cyflog Byw. Mae cyflogau wedi'u halinio naill ai ag amodau a thelerau Llywodraeth Leol neu amodau a thelerau Soulbury gan ddibynnu ar rôl y swydd, gan alluogi ar gyfer datblygiad cyflog blynyddol yn unol â'r raddfa gyflog berthnasol  a chyda dyfarniadau cyflog cenedlaethol.

**Gwyliau blynyddol:** Rydym yn cynnig gwyliau blynyddol hael ynghyd â'r wyth gŵyl banc statudol fesul blwyddyn a 3 diwrnod statudol ychwanegol rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Cyfrifir gwyliau blynyddol yn unol â hyd eich gwasanaeth:

- Hyd at 5 mlynedd o wasanaeth llywodraeth leol: 25 o ddiwrnodau
- Ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth parhaus yn y llywodraeth leol: 30 o ddiwrnodau
- Ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth parhaus yn y llywodraeth leol: 33 o ddiwrnodau

**Trefniadau gweithio hyblyg**: Rydym yn ymrwymedig i helpu ein gweithwyr i gyflawni cydbwysedd gwaith/bywyd wrth fod yn ymatebol i ddiwallu anghenion newidiol y gwasanaeth. Rydym yn gweithredu polisïau gwaith hyblyg ac mae llawer o weithwyr yn elwa o drefniadau gwaith hyblyg megis gweithio hybrid a dull hyblyg i oriau gwaith.

**Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Rhagorol:**  Caiff gweithwyr newydd eu cofrestru'n awtomatig ar Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae cyfraniadau'n amrywio o 5.5% i 12.5% o gyflog pensiynadwy yn seiliedig ar enillion, sy'n cael eu tynnu o'ch cyflog cyn treth. Os ydych yn trosglwyddo o gyflogwr llywodraeth leol arall, caiff eich gwasanaeth ei agregu. Gall gweithiwr newydd hefyd drosglwyddo ei fuddion o gynlluniau eraill.

Mae gennych yr hawl i optio allan o'r cynllun pensiwn os nad ydych am fod yn aelod.

**Mynediad i ddatblygiad proffesiynol parhaus:** Rydym yn cynnig amrywiaeth o ddysgu proffesiynol i'n staff ac mae'r pwyslais ar ddatblygiad yn sicrhau bod aelodau'r tîm yn meddu ar y sgiliau mae eu hangen i ddatblygu yn eu rolau a'r tu hwnt. Mae'r GCA yn cynnig dysgu proffesiynol wedi'i deilwra i ddatblygu staff. Mae'r holl aelodau staff newydd yn derbyn sesiynau ymsefydlu ac adolygiadau datblygiad perfformiad rheolaidd gan eu galluogi i nodi anghenion datblygu proffesiynol.

**Gwasanaeth llywodraeth leol:** Os oes gan weithiwr wasanaethau parhaus blaenorol gyda sefydliad sy'n dod dan Orchymyn Diwygio Taliadau Diswyddo (Parhad Cyflogaeth mewn Llywodraeth Leol) 1999 bydd yn cael ei gynnwys wrth gyfrifo'r hawl i'r canlynol:

- Gwyliau blynyddol
- Cynllun salwch galwedigaethol
- Cynllun mamolaeth galwedigaethol
- Cynllun cymorth mamolaeth
- Absenoldeb mabwysiadu
- Taliad diswyddiad

**Manteision gweithwyr:** Rydym yn cynnig amrywiaeth o fuddion i weithwyr, gan gynnwys:

- Vectis – gwefan fuddion sy'n cynnwys gostyngiadau a thalebau ar-lein
- Cynllun llogi ceir Tusker (aberthu cyflog)

**Llesiant gweithwyr:** Rydym yn cynnig amrywiaeth o fecanweithiau i gefnogi llesiant gweithwyr.

- Rydym yn cynnig mynediad am ddim i weithwyr i gyngor a chymorth cyfrinachol 24 awr y dydd, 365 o ddiwrnodau'r flwyddyn. Mae modd rhoi gwybodaeth a chyngor mewn perthynas â materion teuluol, personol, dyled neu weithle dros y ffôn neu ar-lein.
- Mae gwasanaeth cwnsela hefyd ar gael
- Gwasanaeth iechyd galwedigaethol
- Rydym yn cynnig profion llygaid am ddim i unrhyw weithiwr sy'n defnyddio cyfarpar sgrin arddangos fel rhan arwyddocaol o'i waith arferol.
- Mae gennym grŵp ffocws llesiant staff sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sefydliad.

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal gyda pholisïau ac arferion sy'n sicrhau na fydd gwahaniaethu yn erbyn unrhyw unigolyn am resymau hil, rhywedd, anabledd, tueddfryd rhywiol, beichiogrwydd neu famolaeth, crefydd neu gred, oedran, ailbennu rhywedd neu briodas neu bartneriaeth sifil.

# DISGRIFIAD SWYDD

## MANYLION Y SWYDD

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Partner Gwella Ysgolion |
| **Cyflog:** | Soulbury 17 – 20 (23 gan gynnwys SPA) |
| **Sefydliad:** | Tredomen Gateway, Ystrad Mynach, ond bydd gofyn iddynt weithio a theithio ar draws y rhanbarth. |
| **Atebol i:** | Prif Bartner Gwella Ysgolion |

## DIBEN Y SWYDD

Arwain ar waith y Consortiwm yn ymwneud a chefnogi ysgolion, eu prosesau hunan-werthuso a'u cynlluniau ar gyfer gwelliant.

## MEYSYDD CANLYNIADAU ALLWEDDOL

- Gweithio'n agos gyda'r Prif Bartner Gwella Ysgolion i gefnogi cyfathrebu rhwng yr ALl, ysgolion a'r GCA mewn perthynas â phrosesau a dulliau gwella ysgolion rhanbarthol, gan gynnwys modelau cymorth, rhaglen dysgu proffesiynol a gweithgareddau hunan-werthuso â gefnogir.
- Rhoi adborth a chyngor i ysgolion ar eu trefniadau hunan-werthuso, eu heffaith ar welliant ac ar allu ysgolion i wella.
- Bod yn bartner proffesiynol mewn nifer o weithgareddau gwella ysgolion, gan dynnu ar arbenigedd a phrofiad allanol.

  Gweithio mewn partneriaeth â'r ysgol, gan ddefnyddio hunan-werthusiad yr ysgol fel sylfaen i gytuno ar y gefnogaeth benodol sydd ei hangen ar yr ysgol, i nodi arfer sy'n werth ei rhannu, a'r gallu i gefnogi eraill.

## PROFFIL TASGIAU MANWL

- Darparu rôl Partner Gwella Ysgolion ar gyfer grŵp o ysgolion o fewn y rhanbarth.
- Cydgysylltu'n uniongyrchol a gweithio'n agos gyda'r Prif Bartneriaid Gwella Ysgolion, gan gynnwys goruchwylio a sefydlu ar gyfer Partneriaid Gwella Ysgolion Cymheiriaid eraill.
- Cefnogi awdurdodau lleol gyda recriwtio penaethiaid a dirprwy benaethiaid.
- Cymryd rhan mewn trafodaethau broffesiynol gydag ysgolion er mwyn gefnogi'r gwaith o nodi blaenoriaethau gwella ysgolion a'u gofynion cymorth.

- Cynorthwyo ysgolion i gynnal prosesau hunan-arfarnu manwl gywir a chadarn yn arwain at nodi blaenoriaethau gwella ar sail dulliau trylwyr seiliedig ar ymholi a'u cefnogi i ddod yn ysgol hunan-wella.
- Gweithio'n strategol gydag ystod o bartneriaid i fynd i'r afael â meysydd ffocws yng Nghynllun Busnes y GCA sy'n ymwneud â gwella ysgolion.
- Cynorthwyo ysgolion i ddatblygu cynlluniau gwella effeithiol yn cynnwys cynlluniau grantiau.
- Darparu a brocera cymorth effeithiol i ysgolion yn unol â'u blaenoriaethau gwella gan ddefnyddio'r arlwy cymorth rhanbarthol.
- Cefnogi gwaith ysgol-i-ysgol trwy rwydweithiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd Tîm o Amgylch yr Ysgol ar gyfer yr ysgolion hynny sydd angen cymorth mwy dwys.
- Hyrwyddo strategaethau effeithiol i wella ansawdd addysgu a dysgu ac arweinyddiaeth i sicrhau darpariaeth well a deilliannau gwell i ddisgyblion.
- Cyfrannu at a hyrwyddo'r arlwy dysgu proffesiynol rhanbarthol i sicrhau fod pob arweinydd ac ymarferydd yn cael DP effeithiol, yn enwedig ynghylch agenda Cwricwlwm i Gymru.
- Darparu agweddau o'r arlwy dysgu proffesiynol yn cynnwys rhaglenni arweinyddiaeth ar gyfer gwireddu'r cwricwlwm a Chwricwlwm i Gymru ac ystod o DP ar gyfer Llywodraethwyr.
- Mynychu cyfarfodydd Cyrff Llywodraethu pan fo hynny'n briodol.
- Cyfranogi mewn cyfleoedd dysgu proffesiynol a rhwydweithio sy'n berthnasol i rôl Partner Gwella Ysgolion.
- Sicrhau fod ysgolion yn deall ac yn cyflawni eu dyletswyddau i ddiogelu plant a phobl ifanc ym mhob agwedd o'u gwaith.
- Cefnogi ysgolion gyda phob agwedd o'r agenda diwygio yn cynnwys cymorth ynghylch y Cwricwlwm y Gymru a diwygio ADY.
- Darparu cymorth wedi'i dargedu cyn ac yn dilyn arolygon Estyn Providing targeted support prior and following ESTYN inspections.
- Cyflwyno gweithgarwch i gyflawni gofynion statudol a lleol ynghylch rheoli perfformiad Penaethiaid a chymeradwyo cynlluniau grantiau yn ffurfiol.
- Cofnodi'r holl weithgarwch cymorth trwy gyfrwng y defnydd o'r trosolwg Cynllun Sengl, Nodiadau Gweithgarwch a dogfennaeth ategol.
- Gweithio mewn partneriaeth â'r ysgol a'r ALI i gefnogi monitro a gwerthuso o'i chynnydd tuag at flaenoriaethau gwella.
- Cymryd rhan mewn gweithgarwch goruchwylio rheolaidd gyda'r Partner Gwella Ysgolion i drafod cynnydd tuag at gyflawni blaenoriaethau gwella ysgolion a enwyd.

## CYFFREDINOL

- Bydd yn ofynnol iddynt weithio mewn nifer o swyddfeydd gwahanol, i gyd-fynd â gofynion y busnes.
- Bydd yn ofynnol iddynt weithio'n hyblyg ac amrywio'r oriau gwaith, i gyd-fynd â gofynion y busnes.

- Cyflawni’r dyletswyddau sydd gan gyflogeion o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974.
- Cydymffurfio ag agweddau perthnasol o’r Gweithdrefnau Diogelu Cymru, Fesur y Gymraeg (2011), Mesur Effaith ar Gydraddoldeb, a sicrhau cydymffurfiaeth â’r Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data (GDPR).
- Gweithio yn unol â pholisi a gweithdrefnau’r cwmni ynghylch diogelu, cyfleoedd cyfartal ac arferion gwrth-wahaniaethol a chynnal cyfrinachedd ym mhob agwedd o’r gwaith.
- Ymateb yn gadarnhaol ac yn hyblyg i newid a maeddu ar agwedd ‘gallaf’ a dangos parodrwydd i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant a datblygu er mwyn gwella sgiliau.
- Ymgymryd â dyletswyddau eraill a/neu oriau gwaith eraill o bryd i’w gilydd, fel y gellir gofyn i chi wneud o fewn rheswm, yn unol â gradd eich swydd neu lefel cyffredinol eich cyfrifoldebau o fewn y sefydliad, yn eich gweithle neu mewn unrhyw sefydliad arall.

Partner Gwella Ysgolion

# MANYLEB YR UNIGOLYN

| | HANFODOL | DYMUNOL |
|---|---|---|
| **CYMHWYSTER** | • Statws Athro Cymwysedig neu gyfwerth.<br>• Gradd neu gyfwerth. | |
| **GWYBODAETH** | • Gwybodaeth ragorol am bwnc, cyfnod neu agwedd benodol.<br>• Gwybodaeth ragorol o agenda diwygio Cymru a'r holl dueddiadau cyfredol mewn addysg<br>• Sgiliau hunan-werthuso rhagorol.<br>• Gallu sicrhau ansawdd y gwasanaeth yn effeithiol ar bob lefel.<br>• Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol ychwanegol.<br>• Gwybodaeth ragorol o ofynion y Model Cenedlaethol ar gyfer Gwella Ysgolion. | |
| **SGILIAU** | • Y gallu i gyfarthrebu trwy gyfrwng y Gymraeg, ar lafar ac yn ysgrifennedig.<br>• Sgiliau arwain, cymell a rheoli rhagorol.<br>• Cydbwyso galwadau am adnoddau sy'n gymhleth ac yn cystadlu.<br>• Sgiliau cyfathrebu rhagorol, ar lafar ac yn ysgrifenedig.<br>• Y gallu i ysbrydoli ac arwain timau.<br>• Gallu darparu a chyflwyno'n effeithiol i amrywiaeth o gynulleidfa.<br>• Y gallu i gydweithio'n effeithiol ar draws yr holl awdurdodau lleol ac â'r holl randdeiliaid a nodir. | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Llythrennedd TGCh rhagorol. Y gallu i gyfleu dulliau sydd wedi sicrhau gwelliant o ran deilliannau disgyblion a gwella safonau addysgu ac arweinyddiaeth ar bob lefel.<br>• Y gallu i arfarnu gwaith eraill yn fanwl gywir a darparu adborth priodol a strwythuredig. | |
| **PROFIAD** | • Profiad llwyddiannus o gynorthwyo a herio ysgolion yn briodol.<br>• Profiad llwyddiannus o arwain a datblygu timau mawr sy'n perfformio'n rhagorol mewn ysgol, awdurdod lleol, neu gonsortiwm rhanbarthol, a chydweithio'n effeithiol â rhanddeiliaid mewn cyd-destun lleol a chenedlaethol.<br>• Profiad sylweddol o weithio mewn ysgolion i godi safonau, gan gynnwys profiad profedig fel Pennaeth.<br>• Profiad profedig o godi cyrhaeddiad a lefelau cyflawniad disgyblion trwy arloesi dysgu. | • Profiad o wella ysgolion awdurdodau lleol.<br>• Profiadau o waith gwella ar draws rhanbarth neu ardal ehangach. |
| **ARALL** | • Y gallu i gydweithio'n hyblyg â'r holl awdurdodau lleol o fewn y maes gwasanaeth.<br>• Gallu teithio rhwng a ledled y pum Awdurdod Lleol a mannau eraill pan fydd angen hynny.<br>• Y gallu i gyflawni gwaith o fewn terfynau amser dan bwysau uchel ac mewn amgylchedd gwleidyddol.<br>• Y gallu personol i sicrhau trylwyredd ym mhob agwedd o'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth, er mwyn sicrhau deilliannau gwell i ddysgwyr.<br>• Y cydnerthedd sy'n ofynnol i gynnal y ffocws ar wella os bydd diffyg diddordeb neu wrthwynebiad. | |

# Sut i ymgeisio

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn ymgeisio am y swydd hon, llenwch ac e-bostiwch ffurflen gais at HR@SEWALESEAS.ORG.UK

**Mae croeso i chi gyflwyno eich cais yn Gymraeg neu yn Saesneg. Caiff pob cais ei drin yn gyfartal.**

**Dyddiad cau:** Dydd Gwener 28 Ebrill 2023

**Cyfweliadau:** TBC

*Mae'r Gwasanaeth Gwella Addysg wedi ymrwymo i ddiogelu a hybu lles pobl ifanc. Mae'n rhaid i ymgeiswyr fod yn fodlon cael eu sgrinio mewn perthynas ag amddiffyn plant ar lefel sy'n briodol ar gyfer y swydd, yn cynnwys gwiriadau a wneir trwy gysylltu â chyn-gyflogwyr a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.*

**Diolch am eich diddordeb, edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.**

